| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mehefin 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adolygiadau Etholiadol: Polisi o ran Maint Cynghorau** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Prif Weithredwr** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar fwriad y Comisiwn Ffiniau i gynnal adolygiad etholiadol o faint y cynghorau ym mhrif ardaloedd Cymru** |

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru (LGBCW) gynnal adolygiadau o bryd i'w gilydd o'r trefniadau etholiadaol ym mhrif ardaloedd Cymru.

1.2 Ym Mai 2012, cyhoeddodd LGBCW bapur ymgynghori ac ynddo rai safbwyntiau cychwynnol ynglŷn â sut y gellir penderfynu ar faint cynghorau cyn adolygiad etholiadol. O ganlyniad i sylwadau a dderbyniwyd ar y methodolegau i'w defnyddio ar gyfer penderfynu maint Cynghorau, mae papur ymgynghori pellach wedi ei lunio sydd yn nodi safbwyntiau'r Comisiwn ac agwedd sydd yn seiliedig ar y dull a ddefnyddir ar hyn o bryd yn Yr Alban gydag amrywiaethau o ran daearyddiaeth, topograffi a dwysedd poblogaeth. Mae copi o'r papur ymgynghori ynghlwm.

**Y Fethodoleg y bwriedir ei defnyddio**

1.3 Cynigir nifer o ffactorau y dylid eu hystyried yn cynnwys dwysedd poblogaeth a dosbarthiad y boblogaeth o fewn ardal awdurdod lleol.

1.4 Mae'r papur ymgynghori yn cynnig y dylid gosod awdurdodau mewn pedwar chategori yn seiliedig ar drefoliad a dwysedd poblogaeth. O ran Ynys Môn, byddai'r Cyngor yn cael ei roddi yng nghategori 4 (mwy na 50% o'r boblogaeth yn byw y tu allan i drefi gyda mwy na 10,000 o boblogaeth a llai na 2 berson yr hectar mewn perthynas â dwysedd poblogaeth.

1.5 Byddai hyn yn rhoi cymhareb Cynghorydd : poblogaeth o 2000 a chan ddefnyddio'r fethodoleg hon, byddai'r gymhareb Cynghorydd : poblogaeth yn rhoi cyfanswm o 35 o Gynghorwyr i Ynys Môn.

**Rhwystrau**

1.6 Fodd bynnag, mae'r papur ymgynghori'n nodi y gall unrhyw ddull ar gyfer penderfynu maint Cyngor gael ei gyfyngu gan ddeddfwriaeth a Gorchymyn Gweinidogol ac ymwybyddiaeth o effaith unrhyw newid arfaethedig i faint presennol y Cynghorau.

1.7 Mae Gorchmynion Gweinidogol yn y gorffennol wedi dweud:

a) *Ystyrir bod angen o leiaf 30 o gynghorwyr i fedru rheoli materion cyngor sir neu fwrdeistref sirol yn briodol;*

b) *Ystyrir, er mwyn lleihau'r risg y daw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn rhy fawr ac yn anodd ei reoli, bod angen hyd at 75 o gynghorwyr yn gyffredinol ar gyfer gallu rheoli materion cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn briodol*.

1.8 O'r ymgynghoriad blaenorol, fe ymddengys bod y materion hyn yn cael eu derbyn yn gyffredinol.

1.9 Mae'r effaith a gâi newid sylweddol ar redeg cyngor be bai'r newid hwnnw'n digwydd yn sgil un adolygiad etholiadol hefyd wedi cael ei ystyried gan y Comisiwn. Felly, yn achos pob adolygiad, gosodwyd cyfyngiad na fydd nifer y cynghorwyr yn amrywio gan ychwaneg na 10% o nifer presennol y cynghorwyr. Fodd bynnag, ar gais y prif gyngor dan sylw, bydd y Comisiwn yn ystyried mynd dros ei gyfyngiad gwahaniaeth 10% wrth symud tuag at gyngor o faint a benderfynir gan y model.

2.0 Yn gyffredinol, ac o ran sefyllfa Ynys Môn a chan gymryd y cyfyngiadau hyn i ystyriaeth, byddai nifer y cynghorwyr a gynigir yn cynyddu i 33.

Mae'r papur ymgynghori yn mofyn sylwadau ar:-

- Parametrau categoreiddio (gan sicrhau mai dim ond newidiadau sylweddol o ran dwysedd poblogaeth a threfoliad a fyddai'n arwain at newid categori awdurdod lleol) [adran 2 y papur ymgynghori];
- Cymhareb cynghorydd : poblogaeth (a yw'r gymhareb cynghorydd : poblogaeth yn briodol i bob categori) [adran 2 y papur ymgynghori];
- Y Cynghorau mwyaf a lleiaf a ganiateir – safbwyntiau ar Orchmynion Gweinidogol [Adran 3 yr adroddiad ymgynghori];
- Cap Adolygu – cyfyngiadau ar raddfa'r newid o ran niferoedd y cynghorwyr [adran 3 yr adroddiad].

2.1 Gofynnir am safbwyntiau ar y cynigion hyn erbyn 19 Mehefin 2013.

## Argymhelliad

Gofynnir i'r Cyngor ffurfio ei ymateb i'r materion a godwyd yn y papur ymgynghori ac awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gyda'r Arweinydd i ymateb yn unol â hynny.